

REPORT OF ADMINISTRATION & DEMOCRATIC SERVICES MANAGER

**SUBJECT:
WELSH LANGUAGE STANDARDS: ANNUAL REPORT**

Members will recall that, on the 30th September 2015, the Welsh Language Commissioner issued the Authority with a Compliance Notice in accordance with Section 44 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. The Compliance Notice sets out the Welsh Language Standards with which the Authority has to comply in the course of carrying out its business and the dates from which the Authority has to comply with the Standards. All bar 15 of the Standards contained in the Compliance Notice had to be complied with by the 30th March 2016, with the remainder having a compliance date of the 30th September 2016. The Standards supersede the Authority's Welsh Language Scheme that had been in place up until then.

The Authority is currently challenging three Standards, and we are awaiting the Welsh Language Commissioner's decision on these.

Although the new Standards have only been in place for one day in the 2015/16 financial year, the Authority is required to produce an Annual Report in line with the requirements of the Compliance Notice. A copy of that report will be made available to Members prior to the meeting.

RECOMMENDATION:

That Members endorse the Annual Report as the Authority's submission to the Welsh Language Commissioner.

Background papers:

Welsh Language Standards Compliance Notice issued to the Authority on the 30th September 2015

(For further information, please contact Janet Evans, Administration & Democratic Services Manager on extension 4834, or by e-mailing janete@pembrokeshirecoast.org.uk)



**AWDURDOD PARC
CENEDLAETHOL ARFORDIR
PENFRO:
ADRODDIAD BLYNYDDOL
2015/16 AM Y SAFONAU IAITH
GYMRAEG Y MAE'N RHAI
D INNI GYDYMFFURFIO Â HWY**

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 30 Medi 2015, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth yr Hysbysiad Cydymffurfio i rym ar 30 Mawrth 2016, ac ar ôl hynny roedd disgwyl i'r Awdurdod gydymffurfio â phob un o'r 15 Safon y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad. Y dyddiad cydymffurfio yw 30 Medi 2016.

1.2 Mae'r Safonau yn dod o fewn y pum maes eang a ganlyn:

- Cyflenwi gwasanaethau;
- Llunio polisi;
- Gweithredu;
- Hybu
- Cadw cofnodion.

1.2 Yn ôl Safon 158, rhaid i'r Awdurdod lunio 'adroddiad blynyddol' ynghylch pob blwyddyn ariannol, ac er nad oes ond diwrnod o flwyddyn ariannol 2015/16 wedi mynd heibio ers i'r Safonau newydd ddod i rym, mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r modd y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r Safonau yn y cyfnod dan sylw.

2. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 i 87)

2.1 Gohebiaeth

2.1.1 Atebir gohebiaeth yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol. Os mai'r Awdurdod sy'n cychwyn yr ohebiaeth, bydd yn ei hanfon yn ddwyieithog oni bai bod dewis iaith y derbynnydd yn hysbys.

2.1.2 Wrth anfon gohebiaeth ddwyieithog, caiff y naill iaith a'r llall eu trin yn gyfartal, a defnyddir yr un ffont a'r un maint, a chaiff y ddwy fersiwn eu llofnodi.

2.2 Galwadau ffôn

2.2.1 Caiff pawb sy'n ffonio'r Awdurdod eu cyfarch yn ddwyieithog.

2.2.2 Mae'r neges a recordiwyd ar brif rif ffôn yr Awdurdod ar gyfer yr adegau ar ôl oriau gwaith yn ddwyieithog .

2.2.3 Cafodd pob un o'r staff gyfarwyddyd i drosglwyddo galwad a wnaed i'w llinell uniongyrchol i gydweithiwr Cymraeg yn ddi-oed os na allant barhau â'r sgwrs yn Gymraeg.

2.2.4 Cafodd pob un o'r staff gyfarwyddyd i ateb galwadau a wnaed i'w llinell uniongyrchol gyda naill ai gyfarchiad dwyieithog (Cymraeg yn gyntaf) neu gyfarchiad niwtral, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.3 Cyfarfodydd

2.3.1 Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch trefnu cyfarfodydd, sy'n atgoffa'r holl staff y dylid dosbarthu gwahoddiadau dwyieithog (oni bai bod dewis iaith pob cynrychiolydd eisoes yn hysbys), bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael (os oes angen), a bod yn rhaid i'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, deunydd ysgrifenedig ac ati y bydd yr Awdurdod yn eu llunio ar gyfer y cyfarfod fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

2.4 Datganiadau i'r wasg

2.4.1 Mae'r holl ddatganiadau i'r wasg wedi cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a bydd hyn yn parhau, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

2.5 Dogfennau cyhoeddus

2.5.1 Mae llawer o daflenni gwybodaeth yr Awdurdod yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, neu – os ydynt yn cael eu cyhoeddi ar wahân – gyda brawddeg yn dweud fod y daflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

2.5.2 Os caiff dogfennau cyhoeddus eu hargraffu ar wahân, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.

2.6 Y wefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol

2.6.1 Gall defnyddwyr gwefan yr Awdurdod ddewis yr iaith a ffeirir ganddynt drwy glicio botwm. Rydym yn y broses o sicrhau bod yr holl dudalennau yn cyfateb yn llawn yn y ddwy iaith.

2.6.2 Mae'r holl apiau a lunnir gan yr Awdurdod yn ddwyieithog.

2.6.3 Mae cyfrif Twitter yr Awdurdod yn ddwyieithog.

2.7 Arwyddion

2.7.1 Mae arwyddion yr Awdurdod yn ddwyieithog, er nad y Gymraeg sydd flaenaf bob tro. Pan gaiff yr arwyddion hyn eu hadnewyddu, byddant yn cydymffurfio â'r Safonau yn yr ystyr y bydd y Gymraeg yn flaenaf; fodd bynnag, bydd unrhyw arwyddion newydd a gaiff eu codi yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol.

2.8 Gwasanaethau derbynfaf

2.8.1 O'r pum aelod o staff (tri llawn amser cyfatebol) ym mhrif dderbynfaf'r Awdurdod, mae un yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac mae dau wedi bod ar gyrsiau Cymraeg sylfaenol. Os na all y staff ddelio â galwad eu hunain, maent yn cyfeirio'r galwr at gydweithiwr Cymraeg yn ddi-oed. Mae'r logo 'laith Gwaith' i'w weld ym mhob un o dderbynfeydd yr Awdurdod, ac mae'r staff Cymraeg wedi cael y bathodynau pwrpasol.

2.9 Hysbysiadau swyddogol

2.9.1 Caiff hysbysiadau swyddogol eu cyhoeddi/eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.10 Grantiau

2.10.1 Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae'r nodiadau canllaw a'r ffurflen gais ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff gohebiaeth ei hateb yn newis iaith yr ymgeisydd. Mae unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gael naill ai'n ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg a chaiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.

2.11 Tendrau

2.11.1 Ni wahoddwyd unrhyw dendrau yn y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, mae gwahoddiadau i dendro yn cael eu rhoi'n ddwyieithog ar wefan Gwerthwch i Gymru.

2.12 Hunaniaeth gorfforaethol

2.12.1 Mae hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod wedi bod yn ddwyieithog ers iddo gael ei sefydlu.

2.13 Cyrsiau addysg

2.13.1 Nid yw'r Awdurdod yn cynnal cyrsiau addysg fel y cyfryw. Roedd y rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer 2016/17 eisoes wedi'i chreu yn ystod y cyfnod dan sylw, ond mae adolygiad o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau hynny ar y gweill erbyn hyn.

3. Safonau llunio polisi (Safonau 88 i 97)

3.1 Llunio polisi

3.1.1 Ni luniwyd unrhyw bolisiâu newydd, ac ni adolygwyd unrhyw bolisiâu perthnasol yn ystod y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, bydd yr holl bolisiâu newydd (neu bolisiâu newydd a adolygir) yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol.

3.2 Ymgynghori â'r cyhoedd

3.2.1 Yn ystod y cyfnod dan sylw, ymgynghorodd yr Awdurdod ar ei adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Cyflawni. Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg, ynghyd â'r holiaduron ymgynghori perthnasol.

3.3 Ymchwilio i bolisi

3.3.1 Ni chomisiynwyd unrhyw ymchwil yn ystod y cyfnod dan sylw.

4. Safonau Gweithredu (Safonau 98 i 144)

- 4.1 Ar 31 Mawrth 2016, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 153 o staff. Roedd 30 (20%) ohonynt wedi dweud eu bod yn rhugl, ac roedd 59 (39%) wedi dweud eu bod yn 'dysgu Cymraeg' neu'n 'llai rhugl'.
- 4.2 Gofynnwyd i'r holl staff a ydynt yn awyddus i gael dogfennau sy'n ymwneud â'u gwaith yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 4.3 Mae'r holl bolisiau staffio y mae'r Safonau'n ymwneud â hwy wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg neu yn y broses o gael eu cyfieithu i'r Gymraeg.
- 4.4 Mae'r rhaglenni *Cysgeir* a *Cysill* ar gael i'r holl staff.
- 4.5 Cynhelir adolygiadau perfformiad â'r holl staff, ac ynddynt trafodir yr angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg. Cefnogir aelodau o staff sy'n awyddus i fynd ar gwrs i ddysgu Cymraeg yn ystod eu horiau gwaith.
- 4.6 Dosbarthwyd canllawiau i'r holl staff ynghylch llofnodi negeseuon e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa.
- 4.7 Mae'r holl ddogfennau (hynny yw, disgrifiad swydd, manyleb y person ac ati) ar gyfer swyddi gwag ar gael yn ddwyieithog.
- 4.8 Mae pob swydd wag/newydd yn cael ei hasesu o ran y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

5. Safonau Cadw Cofnodion (Safonau 147 i 154)

- 5.1 Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod dan sylw.
- 5.2 Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio â gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w weld ar ein gwefan.